

CYSYLLTIADAU GRID BRYN GILWERN AC ABEREDW

Llyfryn ar yr ymgynghoriad anstatudol – Medi i Hydref 2024

Sicrhau dyfodol cadarnhaol ag ynni glân i Gymru



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Green GEN Cymru - pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud	3
Dulliau lleol a rhanbarthol o sicrhau dyfodol carbon isel	4
Pam mae angen i ni ddatblygu'r prosiectau hyn	6
Amdano y prosiectau	8
Sut fydd y linell uwchben polion pren yn edrych	10
Trosolwg o'n llwybrau dewisol	12
Ein hymgyngoriad	20
Amserlen y prosiect	23
Gweithio gyda pherchnogion tir a thirfeddianwyr	24
Gosod llinellau uwchben	26

Cyflwyniad

Mae Green GEN Cymru yn cynnig gosod dau gysylltiad llinell uwchben 132kV (132,000 folt) newydd, wedi'u cynnal gan bolion pren, i gysylltu Parciau Ynni Bryn Gilwern ac Aberedw Bute Energy â rhwydwaith dosbarthu lleol newydd arfaethedig

Mae cysylltiad arfaethedig Bryn Gilwern tua 5 cilometr, ac mae cysylltiad Aberedw ychydig dros 1 cilometr.

Mae'r ddau gysylltiad llinell uwchben yn brosiectau ar wahân. Rydym yn ymgynghori arnynt gyda'i gilydd oherwydd bydd y ddau yn cysylltu yn y un lleoliad.

Mae'r llyfryn ymgynghori hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y ddau brosiect, gan egluro pam mae eu hangen ynghyd â manylion y llwybr sy'n cael ei ffafrio.

Mae ein hymgyngoriad anstatudol yn rhedeg o ddydd Mercher 11 Medi i ddydd Mercher 23 Hydref 2024.

Edrychwn ymlaen at gael eich adborth ar ein cynigion, bydd hyn yn hanfodol i'n helpu i ddatblygu'r ddau brosiect.



Green GEN Cymru - pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Mae Green Generation Energy Networks Cymru (Green GEN Cymru) yn falch o fod wedi'i leoli yng Nghymru, ac mae'n datblygu rhwydweithiau ynni gwyrdd yng Nghymru i ddiwallu anghenion pobl, cymunedau a busnesau Cymru i'r dyfodol.

Mae gennym weledigaeth o Gymru sy'n fwy iach ac yn fwy cyfoethog, sy'n defnyddio dulliau glân o gynhyrchu ynni fel pŵer cadarnhaol yn lleol a rhanbarthol – i greu dyfodol mwy cynaliadwy i'r genhedlaeth hon ac i genedlaethau'r dyfodol.

Cynllunio llwybrau ynni gwyrdd ledled Cymru

Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), byddwn yn dylunio, yn adeiladu ac yn cynnal rhwydwaith dosbarthu trydan 132kV (132,000- folt) newydd - sydd ei angen i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru â'r rhwydwaith trawsyrru trydan, gan helpu i sicrhau ynni gwyrdd i gartrefi a busnesau ledled Cymru a thu hwnt.

Bydd mabwysiadu ffynonellau ynni adnewyddadwy yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ledled y wlad. Mae cysylltu systemau cynhyrchu lleol â'r Grid Cenedlaethol yn hanfodol er mwyn ein gwneud yn fwy gwydn ac annibynnol pan fo ynni yn y cwestiwn; bydd hyn yn ein gwneud yn llai agored i unrhyw darfu ar gyflenwadau ynni yn y Deyrnas Unedig. Bydd ein rhwydwaith adnewyddadwy newydd yn creu swyddi ac yn ysgogi twf economaidd, yn lleihau llygredd ac yn gwella iechyd y cyhoedd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Green GEN Cymru greengencymru.com/cy.



Dulliau lleol a rhanbarthol o sicrhau dyfodol carbon isel

Mae Green GEN Cymru wrthi'n datblygu rhwydwaith trydan cadarn a chynaliadwy i gefnogi dyfodol ynni adnewyddadwy Cymru.

Mae potensial di-ben-draw i ynni adnewyddadwy yng Nghymru – yn enwedig o'r gwynt sy'n chwythu ar draws ein bryniau a'n mynyddoedd. Mae angen i ni sicrhau bod yr ynni gwyrdd sy'n cael ei gynhyrchu yn cyrraedd y cartrefi, yr ysbytai, yr ysgolion, y busnesau a'r cymunedau sydd ei angen yng Nghymru gyfan a'r tu hwnt.

Adeiladwyd y seilwaith trydan yng Nghymru flynyddoedd lawer yn ôl, i gludo trydan o hen orsafoedd pŵer tanwydd ffosil yn y gogledd a'r de. Nid oes gan y rhwydwaith presennol yng Nghanolbarth Cymru ddigon o gapasiti i gysylltu'r holl ynni adnewyddadwy newydd sydd ei angen arnom ar gyfer ein cartrefi a'n busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol.

I rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil, mae taer angen seilwaith cynaliadwy a chadarn newydd arnom yng Nghymru.

Byddai ein rhwydwaith arfaethedig yn glluogi cysylltiad uniongyrchol rhwng prosiectau cymunedol ac adnewyddadwy eraill, gan leihau'r pwysau ar y grid trydan presennol, cefnogi gwytnwch ynni a galluogi y symudiad i gwresogi gwyrdd a cerbydau trydan.

Un o'r nodau allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yw cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a graddol roi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil.

Er mwyn ymateb i'r her hon a tharged Llywodraeth Cymru i ddiwallu'r hyn sy'n cyfateb i 100% o angen Cymru am drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035, rydyn ni'n datblygu rhwydwaith trydan adnewyddadwy cryfach a mwy cadarn y mae gwir ei angen yng Nghymru – i ddosbarthu ynni glân, gwyrdd.



byd Sero Net

Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), sy'n falch o fod wedi ein lleoli yng Nghymru, rydyn ni'n gweithredu nawr i adeiladu a rhedeg rhwydwaith ynni gwyrdd i Gymru gan ddarparu ynni glân, dibynadwy a chynaliadwy i'n cartrefi, ein busnesau a'n cymunedau.


Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r heriau hyn:



Cysylltu safleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy, defnyddio llai o danwyddau ffosil



Gweithredu'n gyflym a chyflwyno prosiectau'n effeithlon



Seilwaith grid newydd i gysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau



**YR ANGEN AM NEWID –
SICRHAU DYFODOL CARBON ISEL**

Pam mae angen inni ddatblygu'r prosiectau hyn?

Bydd Cysylltiadau Grid Bryn Gilwern ac Aberedw, a gynhelir ar bolion pren, yn cysylltu Parciau Ynni Bryn Gilwern ac Aberedw Bute Energy â rhwydwaith dosbarthu lleol newydd arfaethedig mewn gorsaf newid trydan newydd, ar droed Bryn Aberedw, i'r gogledd-ddwyrain o Lanfair-ym-Muallt.

Nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol ddigon o gapasiti i gysylltu safleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd â'r grid cenedlaethol. Mae angen i ni weithredu nawr i adeiladu seilwaith trydan newydd i sicrhau bod ein cymunedau lleol yn gallu elwa o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru wrth i'n gwlad raddol droi ei chefn ar fod yn ddibynnol ar danwydd ffosil.

Bydd gan Barciau Ynni arfaethedig Bute Energy ym Mryn Gilwern ac Aberedw, gyda'i gilydd, y capasiti ynni gwynt i gynhyrchu 192 megawat; mae hynny'n ddigon i bweru tua 175,700 o gartrefi ac arbed tua 261,500 o dunelli o garbon y flwyddyn.

I ddysgu mwy am gynigion Bute Energy, ewch i:

aberedwenergypark.wales/?lang=cy a bryngilwernenergypark.wales/?lang=cy

Rhwydwaith cadarn ar gyfer dyfodol carbon isel

Mae cael rhwydwaith trydan sy'n perfformio'n dda yn allweddol er mwyn:



symud at ddyfodol lle byddwn yn rhoi'r gorau i ddefnyddio olew a nwy



cefnogi'r gwaith o gyflwyno technolegau carbon isel fel cerbydau trydan, pŷmpiau gwres a thechnolegau eraill



sicrhau bod gan gartrefi, addysg a busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol, fynediad at ynni carbon isel



helpu cymunedau i ffynnu drwy ddarparu'r capasiti trydan i ennyn buddsoddiadau mewn swyddi, busnesau a thai



Amdano brosiectau Bryn Gilwern ac Aberedw

Bydd Cysylltiadau Grid Bryn Gilwern ac Aberedw yn cysylltu Parciau Ynni Bryn Gilwern ac Aberedw Bute Energy â rhwydwaith dosbarthu lleol newydd arfaethedig. Bydd y ddwy linell uwchben 132kV newydd, a fydd yn cael eu cynnal ar bolion pren, yn cysylltu â gorsaf newid trydan newydd arfaethedig, wrth droed Bryn Aberedw, i'r gogledd-ddwyrain o Lanfair-ym-Muallt.

Mae cysylltiad arfaethedig Bryn Gilwern tua 5 cilometr, ac mae cysylltiad Aberedw ychydig dros 1 cilometr.

Mae'r ddau gysylltiad llinellau uwchben yn brosiectau ar wahân. Rydyn ni'n ymgynghori ar y ddau brosiect gyda'i gilydd oherwydd y bydd y ddau yn cysylltu yn yr un lle.

Mae llinellau trydan newydd 132kV ac uwch yn cael eu hystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru, sy'n gofyn am ganiatâd gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), a Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol.

Ar ôl i'n cynigion gael eu cwblhau, byddwn yn cyflwyno dau gais cynllunio ar wahân i PCAC – un ar gyfer cysylltiad Bryn Gilwern ac un ar gyfer cysylltiad Aberedw.

Dewis y llwybrau a ffafrir

Gan weithio gyda'n hymgyngorwyr arbenigol, fe wnaethom ddewis ac asesu'n ofalus nifer o opsiynau posibl ar gyfer trywydd y llinellau uwchben er mwyn cysylltu'r Parciau Ynni newydd â'r rhwydwaith trydan. Mae ein rhwydwaith llinell uwchben arfaethedig wedi cael ei ddylunio'n ofalus i ystyried y gofynion technegol a sut gallai pob opsiwn effeithio ar gymunedau lleol, y dirwedd a golygfeydd lleol, bioamrywiaeth, coedwigaeth, treftadaeth ddiwylliannol, perygl llifogydd a defnyddiau tir eraill ar hyd y llwybr.

Yna, fe wnaethom ddewis y llwybr yr oedden ni yn ei ffafrio a nodi lleoliad drafft posibl, gan gynnwys safleoedd dangosol y polion pren, ar gyfer cysylltiadau grid Bryn Gilwern ac Aberedw. Rydyn ni'n credu bod y llwybrau sy'n cael eu ffafrio yn sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng ein gofynion technegol ni a chael yr effaith leiaf bosibl ar yr amgylchedd a'r cymunedau cyfagos.


Yn ein gwaith, fe wnaethom asesu:




Yr amgylchedd a'r dreftadaeth



Effeithiau ar y gymuned



Effeithiau gweledol



Anghenion technegol



Costau

Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ceisio lleihau'r effeithiau gweledol cymaint â phosibl, gan ystyried yn ofalus y golygfeydd o leoliadau megis eiddo, a gan ddefnyddio'r coed a'r llystyfiant presennol i'w sgrinio'n naturiol lle bo hynny'n bosibl.

Byddwn yn parhau i fireinio ein cynigion wrth i ni ddatblygu dyluniad ac lleoliad y ddwy linell uwchben newydd, gan ystyried y dirwedd a chwilio am ffyrdd o leihau ymhellach yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd a'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser yn yr ardal.

Ein nod yw bodloni anghenion technegol y prosiectau a chydbwysu a pharchu sensitifrwydd yr amgylchedd cyfagos ar yr un pryd.



Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddarllen mwy am y gwaith a wnaethom i ddewis y llwybr a'r prosesau rydyn ni wedi'u defnyddio i ddewis y llwybr sy'n cael eu ffafrio ar gyfer pob cysylltiad, yn yr Adroddiadau Aliniad Llwybro ar ein gwefannau.


greengenbryngilwern.com | greengenaberedw.com



Eich Adborth

Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau posibl oherwydd ein cynigion er mwyn i ni allu eu datblygu gan ymateb i anghenion lleol.

Gweler tudalen 21 am ffyrdd o gyflwyno eich adborth.





Sut fydd y llinell uwchben polion pren yn edrych?

Bydd y llinellau uwchben ar gyfer cysylltiadau grid Bryn Gilwern ac Aberedw yn cael eu cynnal ar bolion pren.

Mae'r polion fel arfer rhwng 14 ac 16 metr o uchder. Mae'r pellter cyfartalog rhwng peilonau, neu'r 'rhychwant', yn oddeutu 110 metr.

Mae union uchder a hyd y polion pren yn amrywio yn dibynnu ar y dirwedd neu'r rhwystrau maen nhw'n eu croesi, fel nentydd ac afonydd.

Pan fydd y linellellau uwchben yn newid cyfeiriad, bydd angen gosod polion ongle, gyda gwifrau ar gyfer sefydlogrwydd.



Trosolwg o'r llwybrau a ffefrir

Rydym wedi cynnwys detholiad o fapiau yn dangos y ddau lwybr a ffefrir.

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y ddau gysylltiad â llinellau uwchben hyn, a'r hyn sydd wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau hyd yma.

Map trosolwg o'r llwybr ei ffafrio ar gyfer Bryn Gilwern ac Aberedw

Map o'r llwybr a ffefrir ar gyfer Bryn Gilwern

Map o'r llwybr a ffefrir ar gyfer Aberedw

Cymerwch ran - cyfle i ddweud eich dweud am ein cynigion

Hoffem glywed eich barn am ein cynigion ac am unrhyw bryderon sydd gennych chi, er mwyn ein helpu i ystyried anghenion lleol wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau.

Gweler **tudalennau 20 i 21** am fanylion digwyddiadau ymgynghori yn eich ardal, ac am ffyrdd o gyflwyno eich adborth.

MAP RHYNGWEITHIOL

Ar wefannau'r prosiectau gallwch weld map rhyngweithiol sy'n dangos y llwybr a ffafrir, a'r lleoliad drafft, gan gynnwys safleoedd dangosol y polion pren ar gyfer cysylltiadau Bryn Gilwern ac Aberedw:



Cysylltiad Grid Bryn Gilwern




Cysylltiad Grid Aberedw

Allwedd

-  Preferred Bryn Gilwern Route Option
-  Preferred Aberedw Route Option
-  Bute Energy's Proposed Bryn Gilwern Energy Park
-  Bute Energy's Proposed Aberedw Energy Park
-  Bute Energy's Indicative Proposed Bryn Gilwern Energy Park substation location
-  Bute Energy's Indicative Proposed Aberedw Energy Park substation location
-  Proposed Towy Usk Draft Alignment - March / April 2024
-  Indicative Towy Usk switching station location

Map trosolwg o'r llwybr a ffefrir ar gyfer Bryn Gilwern ac Aberedw



Y llwybr a ffefrir ar gyfer Bryn Gilwern

Esboniad y llwybr a ffefrir

Bydd y llwybr rydym ni'n ei ffafrio yn dechrau yn safle'r is-orsaf ar gyfer Parc Ynni arfaethedig Bryn Gilwern, ym Mhowys. Yna, mae'r llwybr yn mynd lawr tuag at y A481 cyn croesi i gysylltu â'r orsaf newid arfaethedig, a leolir wrth droed Bryn Aberedw, i'r gogledd-ddwyrain o Lanfair-ym-Muallt.

Y llwybr sy'n cael ei ffafrio, sy'n tua 5 cilometr o hyd, yw'r opsiwn byrraf, mae'n debygol o gael y lleiaf o effaith ar y dirwedd a'r amwynder gweledol, ac mae'n osgoi cael effaith ar goedwigaeth, coetir a pherygl llifogydd. Fodd bynnag, bydd yr effeithiau ar leoliad Bryngaer Banc y Castell, Rhes Meini'r Llys a Maen Hir cysylltiedig y Llys (sy'n henebion rhestredig), a lleihau'r effeithiau posibl ar dir comin, ymysg yr ystyriaethau allweddol pan gaiff union leoliad y polion ei ddewis.


Rhagor o wybodaeth

I gael gwybodaeth fanylach am y dewisiadau y boom yn eu hystyried a sut y dewiswyd y llwybrau sy'n cael eu ffafrio, darllenwchy Adroddiad Aliniad Llwybro ar ein gwefan: greengenbryngilwern.com

Allwedd

- Preferred Bryn Gilwern Route Option
- Preferred Bryn Gilwern Route Option Indicative Alignment
- Preferred Bryn Gilwern Route Option Wood Pole Position
- Bute Energy's Indicative Proposed Bryn Gilwern Energy Park substation location
- Bute Energy's Proposed Bryn Gilwern Energy Park
- Proposed Towy Usk Draft Alignment - March / April 2024
- Indicative Towy Usk switching station location

Y llwybr a ffefrir ar gyfer Bryn Gilwern



Y llwybr a ffefrir ar gyfer Aberedw

Esboniad y llwybr a ffefrir

Bydd y llwybr sy'n cael ei ffafrio yn dechrau ar safle'r is-orsaf ar gyfer Parc Ynni arfaethedig Aberedw, a saif tua 3 cilometr i'r dwyrain o Lanfair-ym-Muallt ym Mhowys. Mae'r llwybr, sydd ychydig dros 1 cilometr o hyd, yn disgyn o ben Bryn Aberedw i gyfeiriad yr A481, a bydd yn cysylltu â'r orsaf newid newydd arfaethedig, wrth droed Bryn Aberedw.

Mae Bryn Aberedw yn nodwedd amlwg yn yr ardal hon, ac o ran tirwedd ac amwynder gweledol, ystyrir bod pob opsiwn mor gytbwys â'i gilydd.

O'r opsiynau y buom yn eu hystyried, dewiswyd y llwybr a ffafrir yn ofalus gan mai dyma'r llwybr byrraf ac nid yw'n dod cymaint i gysylltiad â gorfifdroedd, mawn na chyflenwadau dŵr preifat.

Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn osgoi coetiroedd ac asedau treftadaeth ddiwylliannol dynodedig.


Rhagor o wybodaeth

I gael gwybodaeth fanylach am y dewisiadau y buom yn eu hystyried a sut y dewiswyd y llwybrau sy'n cael eu ffafrio, darllenwch Adroddiad Aliniad Llwybro ar ein gwefan: greengenaberedw.com

Allwedd

- Preferred Aberedw Route Option
- Preferred Aberedw Route Option Indicative Alignment
- Preferred Aberedw Route Option Wood Pole Position
- Bute Energy's Indicative Proposed Aberedw Energy Park substation location
- Bute Energy's Proposed Aberedw Energy Park
- Proposed Towy Usk Draft Alignment - March / April 2024
- Indicative Towy Usk switching station location

Y llwybr a ffefrir ar gyfer Aberedw



Yr orsaf newid

Bydd yr orsaf newid arfaethedig, ger yr A481 wrth droed Bryn Aberedw, yn debyg o ran ymddangosiad i is-orsaf drydan, fel yr is-orsaf bresennol yn Llanfair-ym-Muallt a ddangosir ar y dudalen gyferbyn.

Bydd yr orsaf newid yn mesur oddeutu 75 metr x 85 metr i wneud lle i'r offer trydanol sydd ei angen. Bydd angen i'r safle fod yn fwy na hyn, gan y bydd angen ffyrdd mynediad, ffensys a gwaith tirlunio ar y safle hefyd.

Mae gan y safle arfaethedig fynediad da o brif ffordd yr A481, mae'n gymharol wastad, ac nid oes yno unrhyw ddynodiadau amgylcheddol.

Bydd yr orsaf newid hefyd yn bwynt cysylltu ar gyfer Parc Ynni arfaethedig Nant Mithil Bute Energy (a gaiff ei gysylltu gan brosiect cysylltiad grid 132kV arfaethedig Green GEN Tywi Wysg).

Mae hyn yn caniatáu i ni gysylltu tair llinell uwchben arfaethedig mewn un lle, gan leihau maint y seilwaith yn gyffredinol.

Mae'r cynlluniau ar gyfer yr orsaf newid wrthi'n cael eu datblygu a chânt eu cynnwys yn y cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ar gyfer ein prosiect cysylltiad grid Tywi Wysg.



Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr orsaf newid, ewch i: [greengentowyusk.com](https://www.greengentowyusk.com)

Isod mae delwedd o'r is-orsaf bresennol yn Llanfair-ym-Muallt, sy'n dangos y math o ddatblygiad ar gyfer yr orsaf newid arfaethedig.



Ein hymgyngoriad

Rhwng **dydd Mercher 11 Medi a dydd Mercher 23 Hydref**, rydym yn cynnal ein hymgyngoriad anstatudol ar gyfer prosiectau Cysylltiadau Grid Bryn Gilwern ac Aberedw. Rydym ni'n ymgynghori ar y ddau brosiect ar yr un pryd, a hoffem glywed eich barn.

Beth ydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch?

- Y llwybr sy'n cael eu ffafrio, a'r lleoliad drafft gan gynnwys safleoedd dangosol y polion pren ar gyfer cysylltiadau grid Bryn Gilwern ac Aberedw.

Rydyn ni'n gofyn am adborth ar y canlynol:

- Y llwybr rydyn ni'n eu ffafrio, a'r lleoliad drafft gan gynnwys safleoedd dangosol y polion pren ar gyfer y ddwy linell uwchben newydd
- Unrhyw ffactorau y dylen ni eu hystyried, yn eich barn chi, wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y ddau brosiect
- Unrhyw ffactorau rydych chi'n teimlo nad ydynt wedi cael eu hystyried yn ein gwaith hyd yma.

Sut bydd eich adborth yn dylanwadu ar y prosiectau?

Rydym yn awyddus i glywed gan gymunedau lleol. Gall eich adborth ein helpu i ddeall yn well unrhyw effeithiau posibl y gall ein cynigion eu cael ac mae'n rhan allweddol o sut byddwn yn datblygu'r ddau brosiect mewn ymateb i anghenion lleol.

Rhagor o wybodaeth

Dogfennau ategol

Rydym wedi cyhoeddi'r dogfennau canlynol ar gyfer yr ymgynghoriad.

- Strategaeth Cysylltiad Grid
- Adroddiadau Aliniad Llwybro
- Dogfen y Dull ar gyfer Dewis y Llwybr

Gellir eu gweld yn yr adran ddogfennau ar wefan y prosiect.



greengenbryngilwern.com



greengenaberedw.com



Sut i gymryd rhan

Mae sawl ffordd o gymryd rhan yn ein hymgyngoriad a rhoi eich adborth.

Rhagor o wybodaeth yn ein digwyddiadau cymunedol

Rydyn ni wedi trefnu tri digwyddiad galw heibio cymunedol yn ystod mis Medi 2024.

Dewch draw i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion, gweld delweddau cyfrifiadurol o'r llwybrau sy'n cael eu ffafrio, a chwrrd â thîm y prosiect a gofyn unrhyw gwestiynau.

Amserlen digwyddiadau

Lleoliad	Dyddiad	Amser
Neuadd Bentref Hawy, Hawy, Llandrindod LD1 5PT	Dydd Iau 26 Medi	2pm - 7pm
Neuadd Bentref Hundred House, Llandrindod LD1 5RY	Dydd Gwener 27 Medi	2pm - 7pm
Neuadd yr Eglwys Aberedw, Aberedw, Llanfair-ym-Muallt LD2 3UH	Dydd Sadwrn 28 Medi	10.30am- 3.30pm

Cyflwynwch eich adborth i ni erbyn **23:59 ar ddydd Mercher 23 Hydref 2024.**

Mae'n bosibl na fydd unrhyw adborth a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried gan ein tîm.



SUT I CYFLWYNO EICH ADBORTH

Mae sawl ffordd o fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, gan gynnwys ffyrdd o roi eich adborth, ar gael ar ein gwefan:

Cysylltiad Grid Bryn Gilwern

greengenbryngilwern.com

FREEPOST GREEN GEN BRYN GILWERN

info@greengenbryngilwern.com

0800 0129 884

Neu sganiwch y cod QR



Cysylltiadau Grid Aberedw

greengenaberedw.com

FREEPOST GREEN GEN ABEREDW

info@greengenaberedw.com

0800 0129 884

Neu sganiwch y cod QR



Beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau lleol, ac eraill, yn rhan bwysig o'r broses gynllunio.

Bydd yr holl adborth a gawn o'r ymgynghoriad anstatudol hwn yn cael ei ystyried yn ofalus wrth inni greu ein cynlluniau, ochr yn ochr â chanfyddiadau asesiadau technegol ac arolygon amgylcheddol, yn ogystal ag adborth gan sefydliadau arbenigol. Bydd y sefydliadau hyn, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn adolygu'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud hyd yma ac yn darparu cyngor i lywio ein gwaith.


Ein camau nesaf fydd datblygu dyluniad ac lleoliad manylach ar gyfer cysylltiadau'r ddwy linell uwchben newydd, gan gynnwys dewis lleoliadau terfynol ar gyfer y polion pren ac unrhyw seilwaith dros dro a allai fod yn ofynnol, fel ffyrdd mynediad ac ardaloedd i storio offer adeiladu.

Byddwn wedyn yn cynnal astudiaethau amgylcheddol technegol manwl ac yn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus statudol sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2026. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r adborth a geir o'r ymgynghoriad anstatudol a sut mae hwn wedi dylanwadu ar ein cynigion. Bydd hwn yn cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus nesaf, pan fydd pobl yn gallu rhoi eu barn ar union leoliad y llwybr, gan gynnwys lleoliadau'r polion pren, y llwybrau mynediad a'r ardaloedd gweithio.

Ar ôl i'n cynigion gael eu cwblhau, byddwn yn cyflwyno dau gais cynllunio ar wahân i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) – un ar gyfer **cysylltiad Bryn Gilwern ac un ar gyfer **cysylltiad Aberedw**.**



Amserlen y prosiect



Gweithio gyda pherchnogion tir a thirfeddianwyr

Mae Green GEN Cymru wedi ymrwymo i feithrin perthynas waith gadarn gyda pherchnogion ti a thirfeddianwyr wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer cysylltiadau Bryn Gilwern ac Aberedw. Byddwn yn gweithio gyda chi wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, ac rydyn ni'n eich annog chi a/neu eich cynrychiolwyr i gysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

Wrth gynllunio a datblygu ein prosiectau, mae angen i ni gynnal arolygon er mwyn helpu i lywio dyluniad y cynllun, yn ogystal â'r astudiaethau amgylcheddol manwl.

Mae angen i ni arolygu ardal eang er mwyn sicrhau ein bod yn deall yr amgylchedd lleol, sut gallai ein gwaith effeithio arno ac ystyried unrhyw fesurau lliniaru sy'n ofynnol.

Bydd canlyniadau'r arolygon yn helpu i lywio penderfyniadau i ddewis y llwybr a lleoli cysylltiad Bryn Gilwern ac Aberedw. Mae angen cynnal rhai arolygon, fel arolygon adar neu ystlumod, ar adegau penodol o'r flwyddyn i ddarparu gwybodaeth am nythu neu gynefinoedd a ddefnyddir.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda pherchnogion tir a thirfeddianwyr er mwyn cytuno ar fynediad er mwyn gallu cynnal arolygon - lle bynnag y bo modd - ar adegau priodol gan achosi cyn lleied â phosibl o anghyfleustra.

Nid yw caniatáu mynediad Green GEN Cymru i dir i wneud arolygon yn atal perchnogion tir rhag cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a rhoi sylwadau am brosiectau cysylltu Bryn Gilwern ac Aberedw ar unrhyw adeg.

Os ydych yn dirfeddiannwr ac eisiau rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni.



Rhagor o wybodaeth

Dogfennau tirfeddianwyr

[Taflen Arolygon Amgylcheddol a Pheiranyddol](#)

[Taflen Taliadau Seilwaith Trydanol Newydd i Dirfeddianwyr](#)

Gellir eu gweld y dogfennau hyn ar wefannau'r prosiectau.



Gosod llinellau uwchben

Mae llinellau uwchben a gynhelir ar bolion pren yn gymharol syml i'w hadeiladu. Byddwn yn dilyn gweithdrefnau sefydledig ar gyfer gosod llinellau uwchben yn ddiogel, gan weithio'n ofalus i darfu cyn lleied â phosibl ar bobl leol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Adeiladu llinellau uwchben ar bolion pren

Gosod y safle a llociau adeiladu dros dro

Bydd angen i ni greu llociau adeiladu dros dro ar hyd pob llwybr, i dderbyn cyflenwadau, storio deunyddiau, swyddfa, cyfleusterau lles a lle parcio i gerbydau.

Bydd y llociau wedi'u lleoli mewn safleoedd strategol, yn ddelfrydol ger ffyrdd mawr er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar gymunedau lleol. Byddant yn cael eu symud ar ôl y gwaith adeiladu a bydd y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol.

Mae'r gwaith o adeiladu'r llinell uwchben yn dechrau drwy greu trac mynediad dros dro i safle'r polion pren, ffensio man gweithio diogel, clirio'r llystyfiant a gwneud unrhyw waith draenio angenrheidiol.



Sylfeini

Bydd y peiriant tyrchu wedyn yn cloddio sylfeini yn lleoliad pob polyn H. Mae'r polion yn cael eu codi i'w lle ac yna'n cael eu hôl-lenwi â phridd yn barod i'w ail-hau.

Gosod y polion pren

Fel arfer, mae'r polion yn cael eu gosod gan ddefnyddio wagen hiab (lori â chraen), er efallai y bydd angen defnyddio craen symudol ar rai safleoedd. Efallai y bydd angen dulliau gosod arbenigol ar gyfer rhai amodau, fel tir serth.

Gosod y gwifrau

Ar ôl i'r polion pren gael eu codi, byddwn yn gosod y gwifrau (dargludyddion) sy'n cludo'r trydan – proses o'r enw 'hongian'. Rydyn ni'n hongian y gwifrau ar hyd rhannau o'r llinell polion pren ar y tro.

Efallai y bydd angen i ni godi sgaffaldau a rhwydi dros dro lle mae'r llwybr yn croesi ardaloedd fel ffyrdd, afonydd, yn ystod y broses hongian. Efallai y bydd angen i ni gau rhai ffyrdd am gyfnodau byr, neu ddefnyddio goleuadau traffig neu fyrdau 'Stop / Go' yn ystod y gwaith hwn.

Mae blociau rhedeg wedyn yn cael eu gosod ar yr ynysyddion ac mae'r dargludyddion yn cael eu tynnu drwod gan beiriant winsh. Lleolir 'ardaloedd tynnu' dros dro ar hyd y llwybr. Bydd yr ateb mwyaf priodol ar gyfer pob lleoliad yn cael ei benderfynu wrth i'r prosiect ddatblygu ymhellach.



Cysylltiad Grid Bryn Gilwern



greengenbryngilwern.com



Ffoniwch y rhadffôn wybodaeth ar
0800 0129 884
(dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-5pm)



Anfonwch eich ymholiadau neu'ch adborth
drwy e-bost i info@greengenbryngilwern.com



Ysgrifennwch at
FREEPOST GREEN GEN BRYN GILWERN
(Nid oes angen stamp na chyfeiriad mwy)

Cysylltiadau Grid Aberedw



greengenaberedw.com



Ffoniwch y rhadffôn wybodaeth ar
0800 0129 884
(dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-5pm)



Anfonwch eich ymholiadau neu'ch adborth
drwy e-bost i info@greengenaberedw.com



Ysgrifennwch at
FREEPOST GREEN GEN ABEREDW
(Nid oes angen stamp na chyfeiriad mwy)